**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1242
Ein cyf/Our ref EM/01074/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

31 Mawrth 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Mawrth ynglŷn â Deiseb P-06-1242 Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru.

Rwyf wedi nodi'r sylwadau pellach sydd wedi eu codi gan y Pwyllgor.

O ran amseroedd aros y GIG, cafodd y £140m a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021 ei fuddsoddi drwy gronfa adfer i helpu'r byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG i ddarparu gwasanaethau diogel yn ystod gweddill y flwyddyn, ac i drin y cleifion sy'n dal i fod ar y rhestr aros, sef rhestr sydd wedi tyfu. Y byrddau iechyd sy'n gyfrifol am flaenoriaethu o ran y ffordd orau o ddefnyddio'r cyllid i roi sylw i'r cleifion hynny, gan gynnwys y rheini sydd ar y rhestrau aros gynaecoleg.

Fel y dywedais yn fy ngohebiaeth flaenorol, mae rhwydwaith o nyrsys endometriosis arbenigol wedi cael eu recriwtio ym mhob bwrdd iechyd, a byddant yn datblygu llwybrau cenedlaethol a helpu i leihau'r amseroedd diagnosis ar draws Cymru. Mae'r nyrsys endometriosis yn gwneud yn siŵr eu bod yn treulio amser gyda chleifion yn y clinig, ac yn cysylltu â'u Timau Aml-ddisgyblaeth i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau endometriosis yn eu byrddau iechyd. Mae'r nyrsys yn cydweithio ledled Cymru i roi'r arferion gorau ar waith ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd, gan sicrhau bod llwybrau endometriosis cliriach a mwy effeithiol yn cael eu darparu yn y dyfodol.

Rydym yn gwybod nad oedd y sefyllfa yng Nghymru cyn COVID fel yr oeddem yn dymuno iddi fod, ac oherwydd pwysau ychwanegol y pandemig ar ben hynny, mae'r gorchwyl sydd o'n blaenau'n un heriol iawn. Serch hynny, mae hwn yn orchwyl yr ydym yn llwyddo i gymryd camau tuag at ei gyflawni, gan ddechrau gydag ariannu nyrsys endometriosis a'u cefnogi wedyn wrth iddynt weithio i wneud gwahaniaeth i brosesau clinigol ac i dreulio amser gyda chleifion er mwyn gwella eu hansawdd bywyd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran gwasanaethau endometriosis arbenigol, y byrddau iechyd sy’n gyfrifol am bennu’r ddarpariaeth briodol y mae ei hangen i fodloni anghenion eu poblogaethau lleol. Lle bydd gwasanaethau trydyddol yn cael eu darparu, rwy’n disgwyl i sgyrsiau priodol ddigwydd ar sail ranbarthol er mwyn sicrhau bod y trefniadau cyllid priodol ar waith, a bod llwybrau sy’n darparu gwasanaethau cyfartal a theg yn weithredol ar hyd a lled Cymru.

Hefyd, mae’r Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod wedi datblygu gwefan benodol i’r cleifion a’r nyrsys ei defnyddio. Mae Endometriosis Cymru yn cynnwys hanesion gan fenywod o bob rhan o Gymru sy’n byw gyda’r cyflwr, a phecyn tracio symptomau sydd â’r potensial i fod yn adnodd diagnostig i helpu cleifion a chlinigwyr i gyflymu’r broses o ddarparu diagnosis a thriniaeth.

Yn y gorffennol, nid yw gwasanaethau iechyd menywod wedi cael eu trin yn gyfartal, ac mae lleisiau menywod wedi cael eu hanwybyddu. Rwy’n hollol gadarn fy mwriad i godi safonau’r holl wasanaethau iechyd menywod yng Nghymru, a’r haf hwn byddaf yn cyhoeddi Datganiad Ansawdd sy’n disgrifio sut y bydd y nod hwn yn cael ei gyflawni.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services